PAPAC(6)-08-21 P2



# IMPACT | GWERTHUSIAD CENEDLAETHOL O'R DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU)

## TROSOLWG O'R ASTUDIAETH | MAWRTH 2023

**Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth o academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru ac ymgynghorwyr arbenigol i lunio gwerthusiad o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, elfen hanfodol o bolisi Llywodraeth Cymru i gynhyrchu 'newidiadau trawsnewidiol' wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru. Cynhaliwyd y gwerthusiad cenedlaethol hwn – astudiaeth IMPACT / IMPACT study – rhwng Tachwedd 2018 a mis Hydref 2022.**

### YR HYN WNAETHON NI

Defnyddiodd astudiaeth IMPACT ddull Michael Patton (2018) 'Gwerthusiad sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion / *Principles-Focused Evaluation'* (P-FE) fel y fframwaith trosfwaol. Mae P-FE yn canolbwyntio ar werthuso sut mae egwyddorion yn llywio gweithrediad ymyriadau neu raglenni mewn cyd-destunau sy'n gymhleth, yn ansicr ac yn 'gythryblus', a beth sy'n digwydd o ganlyniad i hynny. Mae tri chwestiwn canolog yn cael eu hateb mewn gwerthusiad P-FE, ac roedd y rhain yn fframio'r gwaith a wnaed ar draws yr astudiaeth hon:

1. I ba raddau y mae egwyddorion ystyrlon a gwerthusiadwy wedi'u mynegi? (Cysyniadoli)
2. Os ydy egwyddorion wedi'u mynegi, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y glynir wrthyn nhw'n ymarferol? (Gweithredu)
3. Os cedwir at hyn, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau a ddymunir? (Optimeiddio)

Roedd prosiect IMPACT yn rhaglen waith a oedd yn cynnwys 11 astudiaeth unigol. Ar y cyfan, clywsom gan dros 450 o gyfranogwyr yr astudiaeth o bob rhan o Gymru, a darparodd pob un ohonyn nhw adroddiadau manwl a chynhwysfawr o'u profiadau o dan y Ddeddf, o safbwyntiau amrywiol.

### YR HYN RYDYN NI WEDI EI GANFOD

- Mae'r ddeddfwriaeth, a'r egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf, yn darparu fframwaith a gefnogir yn dda ar gyfer newid yn yr ymarfer ac yn modd y cyflenwir gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae grymoedd ddaeth yn sgil y pandemig byd-eang o ran iechyd cyhoeddus, yr argyfwng yn y gweithlu, argyfwng costau byw a'r heriau tymor hwy o ran demograffeg a chyni wedi newid mewn ffyrdd digynsail y cyd-destun y gosodwyd y Ddeddf ynddo.
- Mae yna dystiolaeth glir a chymhellol o'r gwaith caled mor eithriadol o anhygoel, yr ymrwymiad, addasrwydd ac ewyllys da gaed gan randdeiliaid o ystyried yr heriau maen nhw wedi eu hwynebu, ond mae tystiolaeth gymhellol hefyd o'r problemau sy'n parhau o fewn y system.
- Mae yna gryfderau cyson ac ar draws y rhanddeiliaid wedi'u nodi yng ngham cyntaf bywyd y Ddeddf (fel y cafodd ei deddfu). Mae darlun positif i raddau helaeth, ond ychydig yn gymysg, am yr ail gam pan drosglwyddwyd y Ddeddf o fod yn ddeddfwriaeth 'ar bapur' i gael ei chyflawni (fel y cafodd ei gweithredu). Mae persbectif llawer mwy negyddol yn cael ei ddangos gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy'n methu â chael y canlyniadau fydden nhw'n ei ddymuno o ran y gofal a'r gefnogaeth maen nhw wedi ei gael a hynny mor gyson ag y bydden nhw eisiau (yn ôl eu profiad nhw).
- Arweiniodd hyn at weld nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth hon yn profi ymdeimlad o ddatgysylltu oddi wrth addewid yr egwyddorion hynny, y gellir eu priodoli'n rhannol i'r ffactorau sydd wedi effeithio ar wasanaethau cymdeithasol ers rhoi'r Ddeddf ar waith, ac y mae yna rwystredigaeth wedi tyfu yn sgil hyn.
- Dydy'r daith tuag at wireddu nod uchelgeisiol y Ddeddf ddim yn gyflawn. Y cwestiwn, felly, ydy sut olwg sydd ar y camau nesaf yn y siwrnai honno, pwy ddylai ei theithio, i ble mae'r daith yn arwain, a phryd y byddwn ni'n gwybod pan fyddwn ni wedi cyrraedd?

## RHESTR O WEITHIAU'N DILYN YR ASTUDIAETHAU

### Theori newid a diffiniad o'r egwyddorion

- Framework for Change (Verity et al., 2019): Dadansoddiad o'r ffactorau cyd-destunol sy'n effeithio ar weithrediad y Ddeddf yng Nghymru, trosolwg o'r Ddeddf, a disgrifiad o'r cyfarwyddiadau, egwyddorion a nodau arweiniol yn yr 11 rhan o'r Ddeddf.
- Literature Review (Llewellyn, Verity a Wallace, golygyddion, 2020; diweddarwyd yn 2023): Dadansoddwyd 268 o bapurau yn yr adolygiad cychwynnol (2020) ar draws egwyddorion y Ddeddf. Ychwanegwyd 97 o bapurau/adroddiadau yn niweddariad 2023, gan roi cyfanswm o 365 o bapurau/adroddiadau wedi eu hadolygu.

### Gwerthuso'r Broses

- Workforce perspectives on implementation of the Act (pre-COVID) (Llewellyn et al., 2021): Arolwg Cymru gyfan o sefydliadau/rhwydweithiau rhanddeiliaid allweddol (ymatebion n=30). Astudiaethau achos haenedig ar 'ôl troed' pedwar awdurdod lleol yn cynnwys cyfweliadau (n=140) gyda thair 'haen' wahanol o'r gweithlu: arweinwyr strategol ac uwch reolwyr; rheolwyr gweithredol; a staff rheng flaen. Cyfweliadau â sefydliadau allweddol rhanddeiliaid cenedlaethol (n=12).
- Persbectif y gweithlu ar weithredu'r Ddeddf (ar ôl COVID) (Wallace, Verity, a Llewellyn, 2023): Cyfweliadau yn ailymweld â'r pedair ardal a gynhwyswyd yn yr astudiaeth gychwynnol fu'n gwerthuso proses i asesu effaith COVID-19 ar weithredu'r Ddeddf (n=60 o gyfweliadau).

### Tystiolaeth gwerthuso gan y defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

- Expectations and Experiences of Service Users and Carers (Llewellyn et al., 2022): Tystiolaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr (n=170) ar eu disgwyliadau a'u profiadau o ofal cymdeithasol.
- Black, Asian and Minority Ethnic service users and carers' expectations and experiences (Llewellyn, 2022): Adroddiad wedi'i gynhyrchu mewn 13 iaith i sicrhau hygyrchedd i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd deunydd y ffynhonnell yn grŵp ffocws (n=10 o gyfranogwyr) a gynhaliwyd gyda phobl hŷn a gofalwyr o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

### Adroddiad Terfynol a phapurau tystiolaeth ategol

- Adroddiad Terfynol (Llewellyn et al., 2023): [yn cynnwys fersiwn Cryno ac un Hawdd ei Ddeall]

- Llesiant (Lyttleton-Smith, Anderson, Read, a Harris, 2023): Astudiaeth ansoddol gyda chyfranogwyr sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth (n=26) ar draws pedair carfan o wahanol oedran (plant 5 i 13, oedolion ifanc, oedolion 20 i 64 oed, a phobl hŷn), gan ganolbwyntio'n benodol ar lesiant. Dadansoddiad meintiol o ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru o ran cwestiynau SYG/ONS am lesiant personol.
- Atal ac Ymyrraeth Gynnar (Read, Verity, a Richards, 2023): Dadansoddiad Dogfennol o Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a 22 o Gynlluniau Cyngor/Corfforaethol neu Adroddiadau Perfformiad sy'n canolbwyntio ar atal.
- Cyd-gynhyrchu (Andrews, Calder, Blanluet, et al., 2023): Gweithdai (n=13) a chyfweliadau (n=4) gydag amrediad o gyfranogwyr (rheolwyr sefydliadol mewn awdurdodau lleol a sefydliadau darparu, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr di-dâl a'r rhai sy'n eu cefnogi) i drafod a deall y 'newidiadau mwyaf arwyddocaol' yn eu profiad o gydgynhyrchu.
- Llais a Rheolaeth (Llewellyn, Saltus a Kent, 2023): Adroddiad sy'n crynhoi mewnwelediadau ar yr egwyddor hon ar sail yr adolygiad o lenyddiaeth a gyhoeddwyd, yr adroddiad ar *Ddisgwyliadau a Phrofiadau* defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ac astudiaeth ymchwil ar brofiadau Cynorthwywyr Personol a gyflogir i gefnogi pobl â Thaliadau Uniongyrchol (the experiences of Personal Assistants employed to support people with Direct Payments).
- Gweithio Aml-asiantaethol (Wallace a Garthwaite, 2023): Dadansoddi data eilaidd o dystiolaeth o'r adroddiadau *Gwerthuso Proses a Disgwyliadau a Phrofiadau*, ochr yn ochr â dull adeiladu consensws ar-lein o fynd ati er mwyn deall cydrannau allweddol o'r gwaith aml-asiantaeth (n=26 o gyfranogwyr).
- Goblygiadau Ariannol ac Economaidd (Phillips, Prowle, Harris a Llewellyn, 2023): Tystiolaeth ar gostau y gellir eu priodoli oddi wrth sampl o dri awdurdod lleol wedi'i gosod ochr yn ochr â'r hyn sydd ar gael yn genedlaethol ar ddefnydd o'r gwasanaeth ac ar alldro refeniw.

### Fideos

- Gellir gweld ffilm fer yn disgrifio'r astudiaeth
- Cyflwyniad wedi'i adrodd gan arweinwyr yr astudiaeth, yr Athro Mark Llewellyn, Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru ynghyd â'r Athro Fiona Verity, Prifysgol Abertawe.


**IMPACT: Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

**Arweinyddion yr Astudiaeth:** Mark Llewellyn and Fiona Verity

**Tîm yr Astudiaeth:** Pippa Anderson, Nick Andrews, Catrin Awoyemi, Heulwen Blackmore, Noreen Blanluet, Megan Elliott, Gideon Calder, Tony Garthwaite, Lisa Griffiths, Ceri Jenkins, Jen Lyttleton-Smith, Marina McDonald, Alison Orrell, Ceri Phillips, Malcolm Prowle, Jonathan Richards, Roiyah Saltus, Sion Tetlow, Carolyn Wallace, Sarah Wallace a Wahida Kent

**Partneriaid:** Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru | Prifysgol De Cymru, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd


University of South Wales Prifysgol De Cymru | wihsc ESTABLISHED 1995 • SEFYDLWYD 1995 | Swansea University Prifysgol Abertawe | Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd | PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY


**Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru** | Prifysgol De Cymru, Pontypridd, CF37 1DL | wihsc.southwales.ac.uk | mark.llewellyn@southwales.ac.uk

## "Ydy gwasanaethau cymdeithasol Cymru'n gwireddu addewidion deddfwriaeth allweddol?" astudiaeth IMPACT yn gofyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad terfynol gwerthusiad pedair blynedd o 'Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014'. Roedd yr astudiaeth IMPACT, dan arweiniad Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru (PDC), yn cynnwys academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru. Roedd y bartneriaeth yn cynnwys cydweithwyr o Brifysgolion Metropolitan Caerdydd, Abertawe a Bangor, a Chanolfan PRIME Cymru.

Mae'r canfyddiadau'n cydnabod ymrwymiad ac ymroddiad y gweithlu gofal a chymorth, a'u gallu i addasu, ond mae hefyd yn rhoi tystiolaeth o heriau sy'n parhau wrth gyflawni dyheadau'r Ddeddf. Roedd y rhaglen waith yn cynnwys 11 o astudiaethau unigol. Rhoddodd 450 o gyfranogwyr o bob rhan o Gymru gyfraniadau manwl a chynhwysfawr o'u profiadau dan y Ddeddf, o amryw safbwyntiau. Mae'r adroddiad terfynol yn un o wyth dogfen sy'n cael eu cyhoeddi. Mae'r lleill yn canolbwyntio'n fanwl ar egwyddorion allweddol y Ddeddf, ochr yn ochr ag adroddiad sy'n archwilio effaith barhaol Covid-19 ar y gweithlu, a diweddariad o'r adolygiad llenyddiaeth.

Mae'r adroddiad yn nodi 19 o gwestiynau 'prawf', yn seiliedig ar dystiolaeth, i Lywodraeth Cymru ac ystod o randdeiliaid eu hystyried. Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn i'r sector gyfan ystyried beth sydd angen ei wneud i wella gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys safon a digonolrwydd gofal cymdeithasol. Mae hyn hefyd yn ymwneud â sicrhau y gwrandewir ar bobl, a sicrhau y gallan nhw wir fod yn rhan o benderfyniadau ar y gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu derbyn.

Mae rhagor o fanylion am yr astudiaeth – gan gynnwys dolenni i bob un o'r adroddiadau, ffilmiau sy'n adrodd y canfyddiadau, a deunydd ategol arall – ar gael yma:
**Gwerthuso Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Prifysgol De Cymru**

Mae rhagor o wybodaeth wedi'i rhannu ar Twitter:
**https://twitter.com/De_Cymru/status/1641351428525416448**

## "Are social services in Wales delivering on the promises of key legislation?" IMPACT study asks

The Welsh Government has published the final report from a four-year evaluation of the 'Social Services and Well-being (Wales) Act 2014'. The Impact (IMPlementation of the ACT) study, led by the Welsh Institute of Health and Social Care (WIHSC) based at University of South Wales (USW), involved academics across four universities in Wales. The partnership included colleagues from USW, Cardiff Metropolitan, Swansea and Bangor Universities, and PRIME Centre Wales.

The findings recognise the commitment, dedication, and adaptability of the care and support workforce, but also provides evidence of challenges that remain in delivering the aspirations of the Act. The programme of work constituted 11 individual studies. In all, 450 study participants from across Wales provided detailed and comprehensive accounts of their experiences under the Act, from a range of perspectives. The final report is one of eight documents that are being published. The others focus in detail on the key principles of the Act, alongside a report examining the lasting impact of Covid-19 on the workforce, and an update of the literature review.

The report sets out 19 evidence-based 'test' questions for Welsh Government and a range of stakeholders to consider. These questions ask the whole sector to look at what needs to be done to improve social services, including the quality and sufficiency of social care. This is also about ensuring that people are effectively listened to, and can genuinely share, decisions about their care and support.

More detail about the study – including links to all of the reports, films narrating the findings, and other supporting material – can be found here:
**Evaluating the Impact of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 | University of South Wales**

Further information has been shared on Twitter:
**https://twitter.com/UniSouthWales/status/1641349816671150081**